# Canllawiau'n ymwneud â'r ffurflen gais
# Cydsyniad Heneb Gofrestredig

Mae'r ffurflen electronig ar gyfer Cydsyniad Heneb Gofrestredig yn galluogi ymgeiswyr i greu a chyflwyno ceisiadau ar-lein fel y gall Cadw eu hystyried.

O dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, mae'n drosedd ymgymryd â gwaith a gweithrediadau ar heneb gofrestredig, neu amharu ar y tir, heb gael cydsyniad heneb gofrestredig yn gyntaf.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Gydsyniad Heneb Gofrestredig ar ein gwefan Caniatâd heneb gofrestredig | Cadw (llyw.cymru) ac yn Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Cymru) 2017.

Dylai'r defnyddwyr gynnwys eu cyfeiriad e-bost ar y ffurflen gais bob amser er mwyn i Cadw allu cyfathrebu'n electronig drwy gydol y broses.

Sylwer: wrth gyflwyno cais ar-lein, cymerir yn ganiataol fod yr ymgeisydd yn cytuno mai e-bost yw ei hoff ddull o gyfathrebu ynglŷn â'r heneb a'r cais, oni bai ei fod wedi nodi'n wahanol ar y ffurflen gais neu oni bai y bydd yn cadarnhau'n wahanol ar ddu a gwyn yn ddiweddarach.

Gellir dod o hyd i'r polisi preifatrwydd perthnasol yma Polisi Preifatrwydd | Cadw (llyw.cymru).

## Llenwi'r ffurflen

Adran 2 – Manylion y cais

1. **Manylion yr ymgeisydd**
   Nodwch fanylion y sawl sy'n cyflwyno'r cais.

2. **Perchennog/Meddiannydd yr heneb (os yw'n wahanol i'r ymgeisydd)**
   Nodwch fanylion perchennog cyfreithlon yr heneb. Mae 'perchennog' yn golygu rhywun sydd, am y tro, yn berchennog ystâd y ffi syml yn yr heneb neu rywun sydd â hawl i denantiaeth yr heneb a roddwyd neu a estynnwyd am dymor blynyddoedd sicr nad oes llai na saith mlynedd ohono yn dal heb ddod i ben.

3. **Yr heneb(ion) sy'n berthnasol i'r cais**
   Os oes modd, nodwch enw swyddogol, cyfeiriad a rhif yr heneb. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn ein cronfa ddata ar-lein, Cof Cymru Chwilio cofnodion Cadw | Cadw (llyw.cymru)

4. **Disgrifiad o'r gwaith arfaethedig**
   Cyflwynwch esboniad ysgrifenedig o'ch cynigion, effaith debygol y gwaith ar yr heneb a'r hyn y byddwch yn ei wneud i sicrhau y bydd arwyddocâd yr heneb yn cael ei ddiogelu, ei gadw neu ei gyfoethogi. Gallwch gynnwys rhagor o fanylion yn y dogfennau ategol yn yr adran nesaf.

5. **Dogfennau i ategu'r cais (e.e. Cynlluniau, Lluniadau)**
   Defnyddiwch yr adran hon i gynnwys datganiadau dull, dyluniadau, ffotograffau, cynlluniau, mapiau, datganiadau, asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth ac ati.

   Mae'n ofynnol o leiaf i'ch cais gynnwys cynllun o'r lleoliad, rhaid iddo esbonio'n glir yr hyn rydych yn ei gynnig a ble, a rhaid iddo gynnwys cynllun a lluniadau'n dangos cyflwr cyfredol yr heneb a pha ddeunyddiau a fydd yn cael eu defnyddio. Efallai y gofynnir ichi gyflwyno gwybodaeth ychwanegol gan ddibynnu ar natur eich cais.

   Defnyddiwch ffeiliau yn y fformatau canlynol er mwyn sicrhau y gallwn dderbyn ac agor y dogfennau:
   - Adobe PDF – pdf
   - Images – jpg / jpeg, png
   - Microsoft Office – doc / docx, xls / xlsx

   Ni allwch lanlwytho ffeiliau a fydd yn fwy na 10MB.

6. **Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cais**
   Gellir defnyddio'r adran hon i hysbysu Cadw ynglŷn ag unrhyw wybodaeth nad yw wedi cael sylw yn yr adrannau uchod. Er enghraifft, os oes angen cydsyniadau eraill.

<u>Adran 3 – Hysbysiad ynglŷn â Chais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig</u>

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol cyflwyno tystysgrif perchnogaeth gyda cheisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig.

Os nad chi yw unig berchennog yr heneb, bydd yn rhaid ichi ardystio eich bod wedi hysbysu holl berchnogion eraill yr heneb ynglŷn â'ch cais, neu eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i wneud hynny.

Gellir lawrlwytho ffurflen 'Hysbysiad ynglŷn â Chais' trwy ddilyn y ddolen ar y dudalen hon.

Adran 4 – Tystysgrif Perchnogaeth

Rhaid ichi ddewis un o'r datganiadau ar y dudalen hon i gadarnhau mai chi yw'r perchennog neu i gadarnhau eich bod wedi hysbysu'r perchennog ynglŷn â'r cais hwn.

*(a) Rwyf/Rydym yn ardystio nad oedd unrhyw berson arall yn berchennog yr heneb ar ddechrau'r cyfnod o un diwrnod ar hugain a oedd yn diweddu ar ddyddiad y cais.*

Dewiswch (a) os mai chi yw unig berchennog yr heneb yn y cais hwn.

*(b) Rwyf/rydym yn ardystio bod yr hysbysiad angenrheidiol ynglŷn â'r cais wedi ei roi i bawb arall a oedd, ar ddechrau'r cyfnod o un diwrnod ar hugain a ddiweddai ar ddyddiad y cais, yn berchnogion ar yr heneb.*

Dewiswch (b) os oes pobl eraill, yn ogystal â chi, yn berchen ar yr heneb yn y cais hwn.

*(c) Rwyf/rydym yn ardystio na ellir cyflwyno tystysgrif yn unol ag unrhyw un o'r paragraffau blaenorol. Cyflwynwyd hysbysiad angenrheidiol ynglŷn â'r cais i un neu ragor o berchnogion yr heneb, a chymerwyd camau rhesymol i ganfod enwau a chyfeiriadau'r perchnogion eraill heb lwyddiant.*

Dewiswch (c) os ydych wedi cymryd pob cam rhesymol i ganfod a hysbysu'r holl berchnogion ond os na lwyddasoch i ddod o hyd i bob un.

*(d) Rwyf/rydym yn ardystio y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i ganfod enwau a chyfeiriadau'r perchennog/perchnogion heb lwyddiant.*

Dewiswch (d) os na ellir cwblhau unrhyw un o'r uchod gan fod yr ymgeisydd wedi methu â chael gafael ar fanylion unrhyw un o berchnogion/meddianwyr yr heneb. Yna, dylid llofnodi a dyddio adran 2(1)(d).

Os ydych wedi dewis (b) neu (c), bydd yn ofynnol ichi nodi manylion y perchennog ar y dudalen nesaf.

## Beth nesaf?

Ar ôl ichi lenwi a chyflwyno eich cais, byddwn yn anfon llythyr cydnabod atoch gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir yn y cais. Yna, bydd y cais yn cael ei ystyried a byddwch yn cael gwybod beth fydd y penderfyniad ynghyd ag unrhyw amodau arfaethedig.

Os oes gennych ymholiadau'n ymwneud â llenwi'r cais, anfonwch e-bost i'r cyfeiriad scheduledmonuments@llyw.cymru.